# Grant Busnes i Ffermydd (FBG)

## Cyfnod ymgeisio ar agor rhwng 1 Mawrth 2021 - 9 Ebrill 2021

## Cwestiynau ac Atebion

1. **A alla i ymgeisio os ydw eisoes wedi derbyn cymorth gwerth £12,000 trwy'r Grant Busnes i Ffermydd (FBG)?**

   Na. Os ydych chi eisoes wedi cyrraedd trothwy cyffredinol y grant o £12,000, ni fyddwch yn gymwys i ymgeisio yn ystod y cyfnod ymgeisio hwn.

2. **Nid wyf wedi bod yn llwyddiannus mewn cyfnodau ymgeisio blaenorol ar gyfer y Grant Busnes i Ffermydd. Faint o siawns sydd gen i i lwyddo yng nghyfnod ymgeisio 8 ar gyfer y Grant?**

   Bydd y datganiadau o ddiddordeb yn cael eu sgorio a'u rhoi mewn trefn yn ôl y meini prawf sgorio a nodir yn y canllawiau, a bydd y datganiadau o ddiddordeb yn cael eu dewis yn eu trefn nes y bydd y cyllid sydd ar gael ar gyfer y rownd wedi cael ei ddyrannu'n llawn. Ceir cyllideb uwch o £5.0m ar gyfer y cyfnod ymgeisio hwn a fydd yn galluogi mwy o ymgeiswyr i gael eu dewis.

3. **Sut alla i fod yn sicr bod yr eitem yr ydw i'n ei brynu'n bodloni'r fanyleb?**

   Mae Atodiad A yn y ddogfen ganllawiau FBG yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'r gofynion ar gyfer pob eitem o offer cymwys. Mae'n gyfrifoldeb ar bob ymgeisydd i sicrhau ei fod ef/hi'n prynu eitemau sy'n bodloni neu'n rhagori ar y fanyleb sylfaenol. Mae'r fanyleb ar gyfer pob eitem yn darparu digon o wybodaeth i ymgeiswyr allu gwneud penderfyniad deallus ynglŷn â chymhwysedd yr eitem. Mae'n bosibl mynd dros y fanyleb a nodir, ond mae'n rhaid i'r eitem fodloni'r isafswm o ran gofynion.

4. **Beth fyddai'n digwydd os na fydd cyflenwyr yn dosbarthu'r eitem mewn pryd er mwyn i mi allu hawlio o fewn yr amserlen 120-diwrnod?**

   Os mae'r cyflenwr/gweithgynhyrchwyr wedi nodi nad oes modd dosbarthu'r eitemau cyn y dyddiad hawlio, bydd angen i chi gysylltu gyda RPW Ar-lein drwy'r adnodd "Negeseuon" yn eich cyfrif RPW Ar-lein neu e-bostio **blwch postio FBG** - FBG,ProcessingTeam@gov.wales - i roi gwybod iddyn nhw am y sefyllfa a darparu cymaint o fanylion â phosibl.

   Bydd angen i chi wneud cais am estyniad i'r cyfnod o 120-diwrnod ar gyfer hawlio a darparu tystiolaeth eich bod wedi archebu'r eitem ynghyd â thystiolaeth ddogfennol gan y cyflenwr yn nodi nad oes modd iddynt ddosbarthu'r eitem. Mae'n rhaid cyflwyno'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl cyn y 120-diwrnod gwreiddiol ar gyfer gwneud hawliad.

5. **A allwn ni brynu eitem cyn y cais a hawlio amdano oherwydd pryderon ynglŷn â'r galw ar gyflenwadau?**

   Fel gyda chyfnodau ymgeisio blaenorol ar gyfer y Grant Busnes i Ffermydd, mae'n rhaid i bob eitem a gymeradwyir gael ei brynu ar ôl i'r cytundeb FBG gael ei dderbyn. Fodd bynnag, os oes pryderon ynglŷn â dosbarthu'r eitemau, byddai angen i chi gysylltu gyda RPW Ar-lein fel y nodir yng nghwestiwn 4.

6. **Rydw i'n bwriadu ymgeisio ar gyfer Grant Busnes i Ffermydd - Cynllun Gorchuddio Iardiau yn ystod y cyfnod ymgeisio nesaf; os ydw i'n llwyddiannus yng nghyfnod ymgeisio 8 ar gyfer FBG, a fydd hyn yn effeithio ar fy nghais ar gyfer y Cynllun Gorchuddio Iardiau?**

   Na, mae'r Grant Busnes i Ffermydd - Cynllun Gorchuddio Iardiau yn gynllun ar wahân gyda dyraniad o gyllid grant ar wahân.

7. **A fydd unrhyw gyfnodau ymgeisio eraill ar gyfer y Grant Busnes i Ffermydd yn y dyfodol?**

   Dyma'r rownd olaf a gynllunnir ar gyfer y Grant Busnes i Ffermydd a ariennir dan y Rhaglen Datblygu Gwledig. Ar hyn o bryd, ni allwn ddweud a fydd rowndiau pellach ar gael yn y dyfodol a fydd yn defnyddio cyllid cwbl ddomestig.

8. **Pam mae rhai eitemau wedi cael eu tynnu oddi ar y rhestr o eitemau cymwys ar gyfer y cyfnod ymgeisio hwn?**

   Mae pob un o'r eitemau cymwys, y manylebau a'r costau safonol wedi cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn bodloni amcanion y rhaglen ac yn cynnig gwerth am arian. O ganlyniad, ar gyfer y cyfnod ymgeisio hwn, mae rhai eitemau wedi cael eu tynnu oddi ar y rhestr. Fodd bynnag, mae eitemau newydd hefyd wedi cael eu cynnwys gan eu bod wedi cael eu nodi i fodloni amcanion y cynllun.

9. **Pam mae'r costau safonol a symiau'r grant wedi newid ar gyfer y cyfnod ymgeisio hwn?**

   Yn yr un modd ag adolygu'r eitemau cymwys, cafodd y costau safonol hefyd eu hadolygu i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r gwir gost i'r diwydiant. O ganlyniad, mae costau safonol rhai eitemau wedi codi ac eraill wedi gostwng.

10. **Beth os ydw i'n cyflwyno cais a bod yr eitem yn cael ei ystyried nad yw'n bodloni'r fanyleb?**

    Mae pob ymgeisydd yn gyfrifol am sicrhau mai dim ond ar gyfer offer cymwys sy'n bodloni'r meini prawf y maen nhw'n hawlio. Os ydych chi'n gwneud hawliad ar gyfer eitem nad yw'n bodloni'r fanyleb, bydd eich cais yn cael ei wrthod a/neu byddwch yn wynebu cosbau.

**11. A yw'r cyllid ar gael ar gyfer busnesau newydd?**

Mae'r Grant Busnes i Ffermydd ar gael i fusnesau ffermio sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodir yn y canllawiau.

**12. Os ydw i wedi bod yn llwyddiannus mewn cyfnod ymgeisio blaenorol ar gyfer y Grant Busnes i Ffermydd ond heb brynu'r eitemau a chyflwyno hawliad, a fyddai modd i mi ymgeisio yn ystod y cyfnod ymgeisio hwn?**

Os wnaethoch chi dderbyn contract yn dilyn cyfnod ymgeisio blaenorol ar gyfer y Grant Busnes i Ffermydd ond heb gyflwyno hawliad, mae modd i chi ymgeisio ar gyfer y cyfnod hwn. Fodd bynnag, bydd gwerth eich contract blaenorol yn cael ei dynnu o gyfanswm y grant sydd ar gael ar eich cyfer.

**13. Sut mae ceisiadau'n cael eu sgorio?**

Mae manylion llawn ynglŷn â'r system sgorio a'r broses ddethol ar gael yn y canllawiau.
https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/farm-business-grant-general-rules-booklet_1.pdf

**14. Rydw i wedi hawlio yn ystod cyfnodau ymgeisio blaenorol ar gyfer y Grant Busnes i Ffermydd, ond heb dderbyn y £12,000 yn llawn, a fyddai modd i mi ymgeisio yn ystod y rownd yma, er bod gen i lai na £3,000 o ddyraniad grant ar ôl?**

Os ydych chi wedi ymgeisio ar gyfer y Grant Busnes i Ffermydd yn ystod unrhyw gyfnodau ymgeisio blaenorol a bod eich datganiad o ddiddordeb wedi cael ei ddewis, ond os nad ydych chi wedi cyrraedd eich uchafswm o £12,000, gallwch ymgeisio eto.

Bydd rhaid i'ch datganiad o ddiddordeb fod gwerth £3,000 neu fwy, ond bydd y cyfraniad grant yn cael ei gapio ar unrhyw swm sydd ar gael i chi o dan y trothwy grant isafswm o £3,000.